# Adroddiad ar

# Caban Enfys

**Ysgol Esceifiog**
**Gaerwen**
**Ynys Môn**
**LL60 6DD**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Caban Enfys

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Caban Enfys |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Beth Woolley ac Andzia Brain |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Ddim yn berthnasol |
| Person â gofal | Michelle Williams a Tracey Parry-McIntosh |
| Nifer y lleoedd | 30 |
| Amrediad oedran y plant | 2 -11 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 27 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 18 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Gwener 9:00yb-5:30yh yn ystod tymor ysgol. Dydd Llun i Ddydd Gwener 8:00yb-5:50yh yn ystod y gwyliau. |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Na |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma'r arolygiad cyntaf ers ailgofrestru fel Caban Enfys. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Chwefror 2015 fel Cylch Meithrin Gaerwen |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 14/02/2023 |
| Cafodd y sefydliad ei gofrestru fel Cylch Meithrin Gaerwen yn flaenorol. Cofrestrwyd y sefydliad fel Caban Enfys yn Rhagfyr 2021.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o blant sy'n mynychu'r sefydliad yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd adref. | |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn llofnodi'r cofnodion damweiniau a digwyddiadau i ddangos eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf

A2 Datblygu’r defnydd o asesiadau ac arsylwadau ymhellach er mwyn gallu cynllunio gweithgareddau pwrpasol sy’n diwallu anghenion bob plentyn

A3 Sicrhau cyfleoedd pellach i blant ymestyn eu medrau llythrennedd a rhifedd wrth chwarae’n ddigymell

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles:

Mae mwyafrif y plant yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n effeithio arnynt. Maent yn hapus ac wedi ymgartrefu’n dda. Mae’r rhan fwyaf o blant yn weithgar ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhâd yn eu chwarae a'u dysgu.

Mae mwyafrif y plant yn gyfathrebwyr hyderus. Maent yn siarad ac yn mynegi eu hunain yn dda. Daw plant i mewn i'r lleoliad yn cyfarch ymarferwyr a'u ffrindiau gyda gwên. Clywyd hwy’n mwynhau cael sgwrs gyda’r ymarferwr am eu cacen pen-blwydd deinosor. Siaradodd y plant â ni am eu hoff weithgareddau, pwy yw eu ffrindiau a dangosodd rhai eu hoff fwyd yn eu bocs bwyd. Mae bron pob un o’r plant yn teimlo'n gyfforddus i ofyn am fwy o lefrith yn ystod amser byrbryd ac mae ymarferwyr yn rhoi hyn iddynt mewn modd amserol.

Mae bron bob un o’r plant yn hapus oherwydd y berthynas gynnes sy’n bodoli rhyngddynt â’r ymarferwyr. Er enghraifft, wrth fwynhau eistedd ar ben-glin ymarferwyr a sgwrsio am weld eu ffrindiau'n chwarae. Mae mwyafrif y plant yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol. Er enghraifft, roeddent yn dangos i ni sut maent yn golchi eu dwylo cyn amser byrbryd a sut maent yn paratoi eu hunain i fynd allan i chwarae yn yr awyr iach.

Mae mwyafrif y plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a’r ymarferwyr. Maent yn mwynhau cymdeithasu ag eraill yn ystod amser bwyd ac yn ymarfer moesau da. Maent yn dysgu rhannu a chymryd eu tro. Er enghraifft, wrth helpu ei gilydd i lenwi bwcedi o faint gwahanol tra’n chwarae yn y twb tywod.

Mae mwyafrif y plant yn frwdfrydig am eu chwarae a'u dysgu. Maent yn mwynhau bod yn ddychmygus yn y gornel gartref, gan ddefnyddio propiau i greu golygfa, er enghraifft wrth wneud bwyd a thywallt dŵr o’r tegell i wneud te. Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn mwynhau’r cyfleoedd chwarae a dysgu ac yn gwneud penderfyniadau a dewisiadau am eu gweithgareddau. Er enghraifft, wrth ddewis amrywiaeth o sticeri lliwgar i wneud cardiau dydd San Ffolant i'w rhieni a gofalwyr. Mae plant hŷn yn egnïol yn yr awyr agored wrth ymarfer datblygu eu medrau corfforol ar eu beiciau ac wrth ddatblygu eu medrau cydbwyso wrth gerdded ar flociau a byrddau olwynion.

Mae mwyafrif y plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu, dysgu a meithrin eu medrau annibyniaeth, sy’n eu galluogi i ddilyn eu diddordebau a gwneud pethau drostynt eu hunain. Maent yn canolbwyntio'n dda wrth iddynt archwilio'r adnoddau synhwyraidd. Er enghraifft, wrth chwilio am anifeiliaid yr Arctig yn yr hambwrdd rhew a dŵr ac yn trochi eu dwylo mewn hambwrdd o ewyn pinc i farcio a gwneud siapiau.

### Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu ymdeimlad o berthyn yn y lleoliad, maent yn awyddus i ddewis gweithgareddau ac yn chwarae’n ddigymell gan ymgartrefu’n hwylus. Mae llawer o blant yn chwarae’n bwrpasol ac yn gwneud cynnydd da gan gyfathrebu’n effeithiol ag eraill. Er enghraifft, wrth fynegi eu teimladau a’u

hanghenion yn bwrpasol, maen nhw'n meddu ar berthynas glòs â'u cyfoedion ac ymarferwyr.

Mae medrau cymdeithasol plant yn datblygu'n llwyddiannus, a gall mwyafrif y plant aros eu tro yn amyneddgar wrth fynd i olchi dwylo a rhannu teganau ac offer yn briodol. Mae'r ychydig sy'n cael anhawster  rhannu ag eraill yn ymateb yn dda pan fydd ymarferydd yn trafod a rhesymu â nhw. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando ar gyfarwyddiadau'n dda ac yn gweithredu'n hyderus arnynt. Er enghraifft, maent yn aros i glywed eu henw cyn dewis ffrwyth o'r siop.

Un elfen nodweddiadol ym medrau cyfathrebu'r plant yw eu brwdfrydedd am lyfrau. Mae llawer o blant yn codi llyfrau o'u gwirfodd ac yn gofyn i ymarferwyr eu darllen. Maent yn ystyried y cynnwys gan ymateb a sgwrsio'n frwd. Er enghraifft, wrth ebychu, 'Yli pa mor fawr yw e!'  a 'That's a volcano!'. O ganlyniad, mae medrau cyfathrebu y mwyafrif y plant yn datblygu'n dda. Mae llawer o blant yn dechrau arbrofi a chreu marciau i bwrpas gyda chyfryngau amrywiol fel creonau, paent a sialc gan ddatblygu llythrennedd cynnar yn briodol.

Mae mwyafrif y plant yn datblygu medrau creadigol yn dda mewn amrywiaeth o gyfryngau fel ymuno'n egnïol wrth ddawnsio a phaentio. Wrth ganu, maent yn ymbil i gael canu eto, 'Dwi eisiau gwneud o'n ffast tro hyn'. Yn yr un modd, mae llawer o blant yn mynegi eu hunain yn hyderus wrth chwarae rôl yn y byd bach dinosoriaid, gan ddatblygu eu medrau mynegi a chyfathrebu yn effeithiol.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau mathemategol da ac yn defnyddio iaith fathemategol mewn cyd-destunau cywir, er enghraifft wrth enwi a chreu siapiau 2D gwahanol gyda'i bysedd, ac yn defnyddio geirfa fathemategol fel 'bach' a 'mawr', 'hir' a 'byr' wrth wneud cacennau toes. Mae gan y mwyafrif ddealltwriaeth briodol o rifau ac maent yn cyfrif gwrthrychau i 5 yn hyderus, gyda'r lleiafrif yn cyfri gwrthrychau hyd at 20. Maent yn dechrau cymhwyso eu medrau rhifedd yn briodol. Er enghraifft, wrth ddeall gwerth arian wrth brynu ffrwyth yn y siop ffrwythau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau corfforol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn datblygu rheolaeth gynyddol wrth ddefnyddio cyfarpar chwarae mawr ac yn datblygu medrau cydbwyso da wrth gerdded dros y planciau pren. Yn ogystal, mae llawer o blant yn datblygu medrau corfforol cydsymud yn briodol wrth lenwi'r bwced a thywod a chan ddyfrio yn y twba dŵr.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau cymhwysedd digidol yn addas. Er enghraifft, mae llawer yn tynnu lluniau gan ddefnyddio cyfrifiadur llechen ac yn mewnbynnu gwybodaeth er mwyn rheoli teclyn codio yn llwyddiannus, ar y cyfan.

**Gofal a datblygiad:**

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn ymateb i'w ceisiadau yn syth. Mae perthynas hyfryd wedi'i meithrin rhyngddynt. Maent yn canmol plant yn gyson am eu hymdrechion ac yn dathlu eu cyflawniadau. Mae gan bron bob ymarferydd ddealltwriaeth addas o'u rolau a'u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae ymarferwyr yn cofnodi presenoldeb plant a phwy sy'n gofalu amdanynt yn gyson. Mae ganddynt hyfforddiant cymorth cyntaf a hyfforddiant diogelu cyfredol. Cynhelir driliau tân a chofnodir y canlyniadau i gynorthwyo gwelliannau

ymarferol. Mae pob ymarferydd yn sicrhau bod plant yn cael byrbrydau iach a bod dŵr a llefrith ar gael. Maent yn trefnu gweithgareddau chwarae addas yn yr awyr agored, gan annog y plant i chwarae yn yr awyr iach er mwyn meithrin eu medrau corfforol.

Mae ymarferwyr yn annog plant i olchi eu dwylo ac mae hyn yn helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol mewn modd cadarnhaol. Maent yn cwblhau cofnodion damweiniau a digwyddiadau ond nid yw pob un o'r rhain wedi'u llofnodi gan rieni a gofalwyr i roi tystiolaeth eu bod wedi cael gwybod amdanynt. Mae ymarferwyr yn ymarfer gweithdrefnau newid clytiau sy'n cyd-fynd â'r canllawiau cyfredol.

Mae ymarferwyr yn trefnu gweithgareddau addas i'r plant ac yn rhoi cymorth iddynt ddatblygu eu chwarae a'u dysgu mewn modd cadarnhaol. Er enghraifft, cael profiad o fwydo oen bach a ddaeth i'r lleoliad, a chodi arian i'r Wcrain. Maent yn gwahodd plant i rannu eu hoff a'u cas bethau ac mae hyn yn arwain at drafodaethau bywiog. Mae ymarferwyr yn ymateb i anghenion unigol pob plentyn ac yn creu amgylchedd gynhwysol. Mae'r ymarferwyr yn dilyn trefniadau cadarn er mwyn diwallu anghenion plant ag anghenion ychwanegol yn briodol.

Mae ymarferwyr yn datblygu ymwybyddiaeth plant o'u cymdeithas a diwylliannau ehangach yn effeithiol. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau diddorol, er enghraifft wrth ddysgu am wyliau gwahanol ddiwylliannau a blasu gwahanol fwydydd o wledydd eraill. Mae ymarferwyr yn datblygu ymwybyddiaeth plant o'u cymuned leol yn gadarnhaol. Er enghraifft, drwy drefnu digwyddiadau i godi arian i elusennau lleol, mynd am dro i gasglu mwyar duon a chasglu pren ar gyfer noson tân gwyllt.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae ymarferwyr yn meddu ar berthynas hyfryd â'r plant ac yn dangos gofal arbennig dros bob un. Mae'r rhan fwyaf yn dangos brwdfrydedd a diddordeb yn ymdrechion y plant, ac mae'r plant yn ymateb yn wych gan ddangos dyfalbarhad a dygnwch. Mae'r addysgeg ddiweddar o wahodd y plant i chwarae, gan gynnwys profiadau sydd o ddiddordeb iddynt, yn sicrhau cymhelliant ac ymrwymiad llawn gan fwyafrif y plant. Mae plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu hadnabod a'u cefnogi'n bwrpasol, ac o ganlyniad, yn gwneud cynnydd da.

Mae ymarferwyr yn cydweithio'n dda fel tîm i gynllunio cyfleoedd dilys a pherthnasol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Mae'r ymarferwyr yn cymell y plant yn briodol i greu marciau ar y cardiau San Ffolant a defnyddio sialc ar lawr yr ardal allanol. Yn ogystal, maent yn darparu amrywiaeth addas o brofiadau i blant gymhwyso eu medrau rhifedd fel defnyddio arian i brynu ffrwythau yn y siop. Er hyn, nid yw'r ddarpariaeth yn ymestyn a herio plant i gymhwyso eu medrau'n llawn wrth chwarae a dysgu'n ddigymell.

Mae llawer o ymarferwyr yn annog y plant i fynegi eu hunain yn effeithiol. Er enghraifft, wrth drafod ac ymateb i straeon, maent yn gofyn cwestiynau agored am gynnwys y stori ac yn llwyddo i ddenu ymatebion brwd ac estynedig gan blant. Mae'r ymarferwyr yn modelu iaith yn briodol ac yn annog plant i ddefnyddio patrymau brawddeg fel 'Ga i lefrith'. Mae cyfleoedd gwerth chweil i blant fynegi eu hunain yn

greadigol. Er enghraifft, wrth beintio Lili Wen Fach, cyfansoddi wrth daro sosbenni a chreu cacennau toes.

Mae ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd cyfoethog ar gyfer datblygu medrau darganfod plant. Er enghraifft, maent yn sbarduno chwilfrydedd am wledydd amrywiol ac yn creu llosgfynydd sy’n ffrwydro. Yn ogystal, mae’r ddarpariaeth yn cynnig cyfleoedd priodol i ddatblygu medrau TGCh plant, fel medrau codio cynnar a thynnu llun gyda chyfrifiadur llechen.

Mae’r ymarferwyr yn goruchwylio’r plant yn effeithiol ac yn dangos gofal a pharch, gan ymyrryd yn briodol, pan fo angen. Maent yn llwyddo i greu awyrgylch ysgogol a chynhaliol i blant gan sicrhau eu bod yn datblygu’n ddysgwyr annibynnol. Mae’r ymarferwyr hefyd yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol yn effeithiol, gan annog plant i barchu eraill ac adnabod y gwahaniaeth rhwng da a drwg. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru’n dda trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a Santes Dwynwen. Yn ogystal, maent yn dathlu amrywiaeth a datblygu dealltwriaeth y plant o’r byd ehangach yn effeithiol trwy ddysgu am draddodiadau amrywiol fel y Flwyddyn Newydd Tseiniaidd, Yom Kippur a Diwali.

Er bod ymarferwyr yn dechrau cynnal arsylwadau addas o gynnydd y plant ar gyfer cynllunio’r camau nesaf yn eu dysgu a’u datblygiad, nid ydynt bob tro’n defnyddio’r wybodaeth yn ddigon effeithiol er mwyn diwallu anghenion bob disgybl. Maent yn defnyddio canfyddiadau asesiadau’n bwrpasol i ddarparu gwybodaeth effeithiol am gyflawniadau’r plant i’w rhieni a’u gofalwyr. Gwneir hyn trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, trafodaethau llafar ac yn ‘Llyfrau Trysor’ unigol y plant.

**Yr amgylchedd:**

Mae’r arweinwyr yn darparu amgylchedd diogel a glân. Maent yn cwblhau asesiadau risg cyffredinol gan nodi'r peryglon posibl i blant a pha fesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn.

Mae’r arweinwyr wedi cynyddu'r trefniadau glanhau arferol ac maent yn dilyn y canllawiau cyfredol ar gyfer rheoli heintiau. Maent yn gwneud yn siŵr bod gwybodaeth glir ar gael i bawb ar sut i ddelio ag argyfyngau. Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn goruchwylio plant yn dda.

Mae’r arweinwyr wedi sicrhau bod gosodiad yr ystafell chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth y plant drwy eu galluogi i symud o gwmpas yn rhydd gan wneud dewisiadau i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae ystod eang ac amrywiol o deganau ac adnoddau ar gael ac mae’r arweinwyr yn gwneud yn siŵr bod gan blant fynediad at ddodrefn o faint priodol.

Mae’r arweinwyr yn trefnu ardaloedd dysgu a chwarae addas ac mae dewis priodol o adnoddau naturiol ar gael i feithrin medrau ieithyddol, rhifedd a hunanymwybyddiaeth plant. Mae teganau ac adnoddau wedi eu gosod yn gyfleus o fewn cyrraedd y plant sy’n eu helpu i wneud penderfyniadau a dewisiadau am yr hyn maent eisiau chwarae ag e. Mae yna ardal addas i blant storio eu heitemau personol ac mae hyn yn creu ymdeimlad o berthyn.

Mae ychydig o adnoddau amlddiwylliannol ar gael i godi ymwybyddiaeth plant o'u cymdeithas ehangach. Mae’r arweinwyr yn defnyddio deunyddiau wedi eu hailgylchu a’u hailddefnyddio yn effeithiol i addurno'r gornel gartref ac i helpu i ddatblygu

dychymyg plant trwy chwarae rôl. Maent yn sicrhau bod gwaith celf plant yn cael ei arddangos yn ddeniadol sy'n rhoi ymdeimlad o falchder i blant.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod plant yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau corfforol ac maent yn annog yr ymarferwyr i fynd â'r plant i'r parc lleol yn rheolaidd. Maent wedi creu ardaloedd cyffrous i blant dyfu blodau a bwydo adar er mwyn iddynt ddysgu am y byd natur o'u cwmpas.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae'r personau â gofal yn rhannu'r rôl arweinyddiaeth yn effeithiol. Maent yn llwyddo i sefydlu ethos cadarnhaol, cynhaliol a chroesawgar, ac o ganlyniad, mae'r awyrgylch yn un hapus iawn. Mae'r personau â gofal yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac yn sicrhau bod aelodau o'r tîm yn deall eu rôl ac yn hybu awyrgylch diogel a gofalgar. Maen nhw'n gwneud y mwyaf o arbenigeddau a chryfderau ymarferwyr. Er enghraifft, wrth sicrhau profiadau addas i blant tair oed i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd yn ystod y sesiwn amser cylch.

Mae aelodau'r pwyllgor yn glir ynghylch y gofynion sydd arnynt, maent yn sensitif i'r heriau o fewn y lleoliad ac yn cefnogi'r ymarferwyr yn effeithiol. Er enghraifft, wrth symud i'r caban newydd ac ailgofrestru'r lleoliad. Ar y cyd, mae'r personau â gofal a'r personau cofrestredig yn sicrhau bod gweithdrefnau asesiadau risg a pholisïau yn gyfredol. Mae'r lleoliad yn bodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol ac yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o'r rheoliadau.

Mae gan arweinwyr drefniadau priodol ar gyfer adnabod cryfderau ac ychydig o'r meysydd i'w gwella. Er hyn, nid ydynt bob tro'n gweithredu'n ddigon effeithiol ar y camau i'w gwella. Mae arweinwyr yn rheoli staff ac adnoddau yn briodol. Maent yn dilyn prosesau recriwtio diogel ac yn diffinio rolau a chyfrifoldebau'n glir. Mae'r broses rheoli perfformiad wedi sefydlu'n briodol, er nid yw arweinwyr bod tro'n cofnodi'r canfyddiadau o gyfarfodydd yn ddigon miniog. Mae ymarferwyr yn cael cyfleoedd da i fynychu ystod o hyfforddiant ac yn cymhwyso eu dysgu yn llwyddiannus.

Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o grantiau ariannol er mwyn gwella'r ddarpariaeth. Er enghraifft, maent wedi datblygu'r ardal werdd drwy rentu tir yr ysgol, a thalu am ffens i amgylchynu'r ardal. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth allanol yn caniatáu cyfleoedd ehangach i blant ddatblygu medrau corfforol, darganfod a chreadigol.

Mae gan y lleoliad bartneriaeth arbennig â rhieni a gofalwyr. Mae ymarferwyr yn buddsoddi amser i adnabod y plant cyn eu bod yn dechrau ac yn defnyddio'r wybodaeth o daflen diddordebau'r plant er mwyn sicrhau eu bod yn ymgartrefu'n llawen yn y lleoliad. Maent yn cydweithio'n dda â busnesau lleol a theuluoedd amaethyddol o fewn yr ardal er mwyn sicrhau bod plant yn derbyn profiadau amrywiol. Esiampl diweddar o hyn yw dod â'r gymuned ynghyd i godi arian ar gyfer elusen leol. Mae ganddynt berthynas gryf â'r ysgol leol ac mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at drosglwyddo esmwyth.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd effeithiol o gyfryngau cymdeithasol a rhaglenni eraill er mwyn hysbysu rhieni a gofalwyr am unrhyw ddigwyddiadau a gweithgareddau amrywiol. Mae'r 'Llyfrau Trysor' yn gofnod hyfryd o daith ddysgu

plant unigol ac yn dangos y cynnydd maen nhw wedi ei wneud yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/04/2023

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 20 Ebrill 2023